cplll



# Canllaw Cynghorwyr

## i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

lgps



# Councillor's Guide

## to the Local Government Pension Scheme

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Y Cynllun | 3 |
| Ymddeoliad | 5 |
| Y Buddion | 7 |
| Diogelwch i'ch Teulu | 9 |
| Rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd cyn Ymddeol | 11 |
| Cymorth gyda Phroblemau Pensiwn | 13 |
| Manylion Cyswllt | 16 |


## Contents


| | Page |
|---|---|
| The Scheme | 3 |
| Retirement | 5 |
| The Benefits | 7 |
| Protection for Your Family | 9 |
| Ceasing to be a Councillor | 11 |
| Help with Pension Problems | 13 |
| Contact Details | 16 |

## Eich Dewis Pensiynau

Mae derbyn eich pensiwn yn gôl i edrych ymlaen ato. Fodd bynnag, os yw eich pensiwn am fodloni eich disgwyliadau, bydd angen i chi gynllunio nawr ar gyfer eich incwm ar ôl ymddeol.

Yn gyffredinol, bydd eich incwm a buddion ymddeol, uwchlaw Pensiwn y Wladwriaeth, yn cael ei ddarparu gan gynllun pensiwn personol, cynllun pensiwn cyfranddaliad neu drwy gynllun pensiwn galwedigaethol megis y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

## Y Cynllun

Mae hwn yn ddisgrifiad byr o amodau aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r prif fuddion, sy'n berthnasol os ydych yn cyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fel Cynghorwr cymwys. Mae'r CPLlL yn gynllun pensiwn statudol sydd yn cael ei ariannu. Oherwydd hynny mae'n sicr iawn oherwydd bod ei fuddion wedi eu diffinio drwy gyfraith.

Mae uchafbwyntiau'r CPLlL yn cynnwys:

- lwmp swm di-dreth pan fyddwch yn ymddeol
- pensiwn blynyddol yn seiliedig ar eich cyflog Cyfartaledd Gyrfa
- y gallu i gynyddu eich pensiwn trwy dalu cyfraniadau ychwanegol
- Ymddeol yn wirfoddol o 60 oed
- Ymddeol o 50 oed gyda chaniatâd eich awdurdod
- Pensiwn salwch o unrhyw oed
- lwmp swm grant marwolaeth mewn gwasanaeth o ddwywaith eich cyflog cyfartaledd Gyrfa
- pensiwn i'ch priod neu bartner sifil (yn ogystal ag unrhyw blant cymwys)
- Buddion yn gysylltiedig â mynegai i sicrhau eu bod yn cadw i fyny â chwyddiant.

## Pwy all ymuno?

Mae'r CPLlL ar gael i holl gynghorwyr a meiri etholedig o unrhyw gyngor sir neu gyngor sir bwrdeistrefol yng Nghymru sy'n derbyn cynnig aelodaeth y Cynllun o dan gynllun lwfansau'r cyngor ac sydd o dan 75 mlwydd oed. Adnabyddir y rhai sy'n cael cynnig aelodaeth fel **Cynghorwyr Cymwys**.
Os ydych wedi cael cynnig aelodaeth o'r Cynllun chi fydd i benderfynu pa un ai i ddewis ymuno a'r Cynllun ai peidio. Os ydych yn dewis gwneud hynny byddwch yn dod yn aelod o'r CPLlL o ddechrau'r cyfnod cyflog cyntaf yn dilyn derbyn eich dewis.

## Sut ydw i yn sicrhau fy mod wedi dod yn aelod?

I sicrhau eich hawl i fuddion y Cynllun mae'n bwysig eich bod yn cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymuno os ydych eisiau ymuno ag aelodaeth y Cynllun. Wrth dderbyn eich ffurflen, fe sefydlir cofnodion ac fe anfonir hysbysiad swyddogol o'ch aelodaeth o'r Cynllun i chi. Yn ychwanegol, fe ddylech wirio eich taliadau lwfans i sicrhau bod eich cyfraniadau pensiwn yn cael eu didynnu.

## Your Pensions Choice

Drawing your pension is a goal to look forward to. However, if your pension is to meet your expectations, you will need to plan now for your income in retirement.

Your retirement income and benefits, over and above the State Pension, will in general be provided by a personal pension plan, a stakeholder pension scheme or by an occupational pension scheme such as the Local Government Pension Scheme (LGPS).

## The Scheme

This is a short description of the conditions of membership and main scheme benefits that apply if you pay into the LGPS as an Eligible Councillor. The LGPS is a statutory, funded pension scheme. As such it is very secure because its benefits are defined and set out in law.

Highlights of the LGPS include:

- a tax-free lump sum when you retire
- an annual pension based on your Career Average pay
- the ability to increase your pension by paying additional contributions
- voluntary retirement from age 60
- retirement from age 50 with your authority's consent
- an ill health pension from any age
- a death in service lump sum of two times your career average pay
- a spouse's or civil partner's pension (as well as any eligible children)
- the index-linking of benefits to ensure that they keep pace with inflation

## Who can join?

The LGPS is available to all Councillors of a Welsh county council or county borough council who are offered membership of the Scheme under the council's scheme of allowances and who are under age 75. Those who are offered membership are termed **Eligible Councillors**. If you have been offered membership of the Scheme it will be for you to decide whether or not to opt to join the Scheme. If you make an election to do so you will become a member of the LGPS from the beginning of the first pay period following the receipt of your option.

## How do I ensure that I have become a member?

To secure your entitlement to the Scheme benefits it is important that you complete and return the joining form if you wish to opt into the Scheme.
On receipt of your form, relevant records will be set up and official notification of your membership to the Scheme will be sent to you.
In addition, you should check your allowance payments to ensure that pension contributions are being deducted.

## Beth fyddaf yn ei dalu?

Yn presennol, eich cyfraniad yw 6% o'r cyflog yr ydych yn ei dderbyn. Fel aelod o'r CPLlL bydd eich cyfraniadau yn rhoi rhyddhad treth ar yr amser y byddant yn cael eu didynnu o'ch lwfans. Er mwyn cyflawni hyn, mae eich cyfraniadau yn cael eu didynnu o'ch lwfansau cyn i chi dalu treth. Felly, er enghraifft, os ydych yn talu treth ar gyfradd o 20%, bydd pob £1 yr ydych yn cyfrannu i'r Cynllun ond yn costio 80c net.

Mae cyfyngiadau ar y swm o ryddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu yn fwy na'r lwfans blynyddol o £40,000 mewn ynrhyw un flwyddyn, efallai bydd rhaid i chi dalu treth. Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio'r mwyafrif o bobl.

## Beth mae'r cyngor yn ei dalu?

Mae'r cyngor yn talu gweddill y gost o ddarparu eich budd daliadau ar ôl ystyried adenillion buddsoddi. Pob tair blynedd, bydd actwari annibynnol yn cyfrifo faint y dylai'r cyngor gyfrannu i'r Cynllun. Bydd y swm yn amrywio, ond y rhagdybiaeth sylfaenol yw eich bod yn cyfrannu oddeutu un rhan o dair o gostau'r Cynllun a bod y cyngor yn talu'r gweddill.

## Alla i dalu mwy i gynyddu fy mudd daliadau?

Gall aelodau gynyddu eu buddion trwy wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY). Yn ychwanegol gallwch dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol neu gynllun budd-ddeiliad. **Am ragor o wybodaeth ynghylch â CGY, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

## Alla i drosglwyddo fy hawliau pensiwn i'm Cronfa CPLlL cyfredol o gynllun pensiwn blaenorol?

**NID** yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu i chi drosglwyddo hawliau pensiwn i'r CPLlL o gynllun pensiwn arall, neu yn wir o gronfa pensiwn awdurdod lleol arall.

Os oes gennych fudd daliadau gohiriedig o gyfnod blaenorol o aelodaeth cynghorydd yn yr un Gronfa CPLlL gallwch ddewis I gydgrynhoi'r aelodaeth cynghorydd cynharach gyda chyfnod cyfredol aelodaeth cynghorydd dim ond os ydych yn dewis gwneud hynny o fewn 12 mis o ail ymaelodi a'r Cynllun neu o fewn cyfnod y bydd eich Cyngor yn caniatáu. Disgresiwn y cyngor yw hyn; gallwch ofyn i'ch cyngor beth yw ei bolisi ar y mater hwn.

## Rwyf eisoes yn derbyn pensiwn CPLlL – a effeithir arno os ydwyf yn ymuno eto?

Os ydych yn dod yn Gynghorydd ble mae eich Cyngor yn cynnig aelodaeth o'r CPLlL i chi mae'n rhaid i chi ddweud wrth gronfa'r CPLlL sy'n talu eich pensiwn am eich amgylchiadau newydd, pa un ai ydych yn ymuno â'r cynllun yn eich swydd newydd a'i pheidio. Byddant wedyn yn edrych pa un ai y dylid lleihau'r pensiwn y maent yn ei dalu i chi.

## What do I pay?

Your contribution is currently 6% of the pay you receive. As a member of the LGPS, your contributions will attract tax relief at the time they are deducted from your allowances. To achieve this, your contributions are deducted from your allowances before you pay tax. So, for example, if you pay tax at the rate of 20%, every £1 that you contribute to the Scheme only costs you 80p net.

There are restrictions on the amount of tax relief available on pension contributions. If the value of your pension savings increase in any one year by more than the annual allowance of £40,000, you may have to pay a tax charge. Most people will not be affected by the annual allowance.

## What does the council pay?

The council pays the balance of the cost of providing your benefits after taking into account investment returns. Every three years, an independent actuary calculates how much the council should contribute to the Scheme. The amount will vary, but the present underlying assumption is that you contribute approximately one third of the Scheme's costs and the council contributes the remainder.

## Can I pay extra to increase my benefits?

Members are able to increase their benefits by making payments to the scheme's Additional Voluntary Contributions (AVC) arrangement. Additionally, you may pay contributions into a personal pension plan or a stakeholder pension scheme. **For further information about and AVC, please contact the Pension Section.**

## Can I transfer pension rights into my current LGPS Fund from a previous pension scheme?

The rules of the Scheme do **NOT** permit you to transfer pension rights into the LGPS from another pension scheme or, indeed, from another Local Authority Pension Fund.

If you have a deferred benefit from a previous period of councillor membership in the same LGPS Fund you may opt to aggregate the earlier councillor membership with the current period of councillor Membership, but only if you opt to do so within 12 months of rejoining the Scheme or such longer period as your council allows. This is a council discretion; you can ask your council what their policy is on this matter.

## I'm already receiving an LGPS pension – will it be affected if I join again?

If you become a councillor where your council offers you membership of the LGPS you must tell the LGPS fund that pays your pension about your new position, regardless of whether you join the scheme in your new position or not. They will then check to see whether the pension they are paying should be reduced.

# Ymddeoliad

## Pryd y gallaf ymddeol?

Gallwch ymddeol a derbyn eich budd daliadau CPLlL yn llawn unwaith y byddwch wedi cyrraedd 65 mlwydd oed. Mae'r Cynllun yn ogystal yn darparu ar gyfer taliad cynnar o'ch budd daliadau CPLlL.

## Beth yw budd daliadau fy ymddeoliad?

Pan fyddwch yn ymddeol byddwch yn derbyn pensiwn a lwmp swm rhydd o dreth gan y CPLlL. Ar Oedran Pensiwn y Wladwriaeth efallai y byddwch hefyd yn derbyn pensiwn ymddeol y wladwriaeth os ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ystod eich bywyd gwaith.
Am ragor o wybodaeth ynghylch eich Pensiwn y Wladwriaeth, ewch ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP): **www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions.cy**

## Alla i ymddeol yn gynnar?

Os oes gennych o leiaf 3 mis o gyfanswm aelodaeth, gallwch ymddeol o swydd a derbyn taliad eich budd daliadau unrhyw amser o 60 mlwydd oed ymlaen. Os ydych yn 50 i 59 mlwydd oed gallwch ymddeol o swydd a derbyn eich budd daliadau yn syth, ond dim ond gyda chaniatâd eich Cyngor y gallwch dderbyn taliad eich budd daliadau cyn 60 mlwydd oed. Mae hyn ar ddisgresiwn y Cyngor ac o dan y CPLlL a gyda hyn mewn golwg, rhaid i bolisi eich Cyngor gael ei gynnwys yn ei Ddatganiad Polisi. Os rhoddir caniatâd gan eich Cyngor i dalu eich buddion cyn oed 55, gall hyn arwain at dâl treth ychwanegol ar eich buddion.

## A fydd fy mhensiwn a'r lwmp swm yn cael ei leihau pe byddaf yn ymddeol yn gynnar?

Os ydych yn ymddeol cyn 65 mlwydd oed, bydd eich buddion CPLlL a gyfrifir yn y lle cyntaf fel y dangosir yn yr adran 'Y Buddion', yn cael eu lleihau i gymryd i ystyriaeth eu bod yn cael eu talu yn gynnar a'r ffaith y bydd eich pensiwn yn daladwy am gyfnod hwy. Mae'r gostyngiad yn cael ei gyfrifo yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Actwari'r Llywodraeth o dro i dro. Mae'r gostyngiad yn seiliedig ar y cyfnod amser (mewn blynyddoedd a dyddiau) yr ydych yn ymddeol yn gynnar h.y. y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd eich buddion yn cael eu talu i 65 oed. Po gynharaf y byddwch yn ymddeol, y mwyaf yw'r gostyngiad.

Os oeddech yn cyfrannu i'r cynllun ar 30 Medi 2006 gallai rhywfaint neu'r cyfan o'r buddion a dalwyd yn gynnar cael eu diogelu rhag y gostyngiad os ydych yn aelod a ddiogelir o dan y rheol 85 mlynedd. **I gael rhagor o wybodaeth am y rheol 85 mlynedd, cysylltwch â'r Adain Bensiynau.**

Noder y gall eich cyngor gytuno i beidio gwneud unrhyw ostyngiad am resymau tosturiol. Mae hwn yn ddisgresiwn y cyngor; gallwch ofyn i'ch cyngor beth yw eu polisi ar y mater hwn.

Os ydych yn ymddeol yn wirfoddol cyn 65 oed nid oes rhaid i chi dderbyn taliad o'r buddion yn syth a gallwch eu gohirio yn y CPLlL ar gyfer eu talu nes ymlaen fel y nodir ar dudalen 11.

# Retirement

## When can I retire?

You can retire and receive your LGPS benefits in full once you have attained age 65. The Scheme also makes provisions for the early payment of your LGPS benefits.

## What are my retirement benefits?

When you retire, you will receive a pension and a tax-free lump sum from the LGPS. At State Pension Age you may also receive a state retirement pension if have paid sufficient National Insurance contributions during your working life. For further information regarding your State Pension, please visit the Department for Work & Pensions (DWP) website: **www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions**

## Can I retire early?

If you have at least three months total membership you can retire from office and receive payment of your benefits at any time from age 60 onwards. If you are aged 50 to 59 you may be able to retire from office and receive payment of your benefits immediately but payment of benefits before age 60 is only possible with your council's consent. This is a council discretion and under the LGPS your council's policy with regard to this must be included within their Policy Statement. Please note that if your council gives their consent to pay your benefits before age 55, this may result in a tax charge on your benefits.

## Will my pension and lump sum be reduced if I retire early?

If you retire before age 65 your LGPS benefits, initially calculated as set out in 'The Benefits' section, will be reduced to take account of their early payment and the fact that your pension will be payable for longer. The reduction is calculated in accordance with guidance issued by the Government Actuary's Department (GAD) from time to time. The reduction is based on the length of time (in years and days) that you retire early i.e. the period between the date your benefits are paid to age 65. The earlier you retire, the greater the reduction.

If you were contributing to the scheme on 30 September 2006 some or all of your benefits paid early could be protected from the reduction if you are a protected member under the 85 year rule. **For further information on the 85 year rule, please contact the Pension Section.**

Note that your council can agree not to make any reduction on compassionate grounds. This is a council discretion; you can ask your council what their policy is on this matter.

If you voluntarily retire before age 65 you do not have to receive immediate payment of your benefits and can defer them within the LGPS for payment at a later date as detailed on page 11.

## Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch?

Os oes gennych o leiaf dri mis o gyfanswm aelodaeth a bod ymarferwr meddygol annibynnol cymeradwy'r awdurdod gweinyddu yn tystio eich bod yn barhaol yn analluog (hyd nes eich pen-blwydd yn 65) i ymgymryd â dyletswyddau eich swydd yn effeithlon oherwydd gwaeledd iechyd neu wendid meddyliol neu gorfforol, byddwch yn derbyn eich pensiwn a'ch lwmp swm yn syth. Mae'n rhaid i'r ymarferydd meddygol fod yn gymwysedig mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol a ni ddylent wedi ymwneud â'ch achos yn flaenorol.

Cyfrifir pensiwn a lwmp swm gwaeledd iechyd yn yr un modd a ddangosir yn yr adran 'Y Buddion', ac eithrio y bydd y cyfanswm aelodaeth a ddefnyddir yn y cyfrifiad yn cael ei gynyddu os yw eich cyfanswm aelodaeth yn bum mlynedd neu fwy. Dangosir cynnydd yn y swm yn y tabl isod:

| Cyfanswm aelodaeth a Ddyfarnwyd | Cyfanswm Aelodaeth wedi'r Cynnydd |
|---|---|
| Llai na 5 mlynedd | Cyfanswm aelodaeth wirioneddol yn unig |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | Cyfanswm aelodaeth wedi'i ddyblu |
| Rhwng 10 a 13 1/3 mlynedd | Cyfanswm aelodaeth wedi'i gynyddu i 20 mlynedd |
| Dros 13 1/3 mlynedd | Cyfanswm aelodaeth wedi'i gynyddu gan 6 2/3 mlynedd |

Fodd bynnag, ni all eich aelodaeth gynyddol fod yn fwy na'r cyfanswm aelodaeth y byddech wedi ei grynhoi pe buasech wedi parhau mewn gwasanaeth hyd nes 65 mlwydd oed. Ni chynyddir eich budd daliadau pensiwn os dyfarnwyd pensiwn gwaeledd iechyd o dan y Cynllun i chi eisoes.

Os, ar y dyddiad ymddeol, mae'r awdurdod gweinyddu yn fodlon bod yna ddisgwyliad oes o lai na blwyddyn, efallai y bydd y pensiwn yn cael ei gymudo i mewn i lwmp swm o bum gwaith y swm o bensiwn a ildir.

## Beth os ydwyf yn parhau i weithio ar ôl 65 mlwydd oed?

Os ydych yn parhau mewn swydd ar ôl 65 mlwydd oed byddwch yn parhau i dalu i'r cynllun, gan adeiladu budd daliadau pellach. Gallwch dderbyn eich pensiwn pan fyddwch wedi ymddeol, neu pan fyddwch yn cyrraedd noswyl eich pen-blwydd yn 75, pa un bynnag sydd gyntaf. Os ydych yn codi eich pensiwn ar ôl 65 mlwydd oed fe gynyddir y pensiwn yr ydych wedi ei adeiladu hyd at 65 mlwydd oed i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu dros amser byrrach. Rhaid i'ch pensiwn gael ei dalu cyn 75 oed.

## What happens if I have to retire early due ill health?

If you have at least three months total membership and an administering authority approved independent registered medical practitioner certifies that you have become permanently unable (until your 65th birthday) to perform the duties of your office efficiently because of ill health or infirmity of mind or body, you will receive your pension and lump sum immediately. The medical practitioner must be qualified in occupational health medicine and must not have previously been involved in your case.

Ill health pensions and lump sums are calculated in the same way as detailed in the section 'The Benefits', except that the total membership used in the calculation will be increased if your total membership is five years or more. The amount by which it will be increased is shown in the table below.

| Total Membership Awarded | Total Membership after Increase |
|---|---|
| Less than 5 years | Actual total membership only |
| Between 5 and 10 years | Total membership doubled |
| Between 10 and 13 1/3 years | Total membership increased to 20 years |
| Over 13 1/3 years | Total membership increased by 6 2/3 years |

Your increased membership, however, must not exceed the total membership you would have accrued had you continued in service until age 65. Your pension benefits will not be increased if you have previously been awarded an ill health pension under the Scheme.

If, at the date of retirement, the administering authority is satisfied that there is a life expectancy of less than a year, the pension may be commuted into a lump sum of five times the amount of pension given up.

## What if I carry on working after age 65?

If you carry on in office after age 65 you will continue to pay into the scheme, building up further benefits. You can receive your pension when you retire, or when you reach the eve of your 75th birthday, whichever occurs first. If you draw your pension after age 65 the pension you have built up to age 65 will be increased to reflect the fact that it will be paid for a shorter time. Your pension has to be paid before your 75th birthday.

# Y Buddion

### Faint fydd fy mhensiwn?

Seilir eich pensiwn ar eich cyfanswm aelodaeth a'ch cyflog cyfartalog gyrfa. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y cyfrifir eich pensiwn trwy rannu eich cyflog cyfartalog gyrfa i 80au a lluosi'r ffigwr hwn gyda'ch cyfanswm aelodaeth i roi eich pensiwn blynyddol.

### Faint fydd fy lwmp swm?

Bydd y lwmp swm a fydd yn cael ei dalu'n awtomatig ar eich ymddeoliad yn dair gwaith eich pensiwn blynyddol ac mae'n rhydd o dreth. Fel eich pensiwn, fe'i seilir ar gyflog cyfartalog gyrfa a chyfanswm eich aelodaeth. Y cyfrifiad ar gyfer eich lwmp swm yw 3/80 o gyflog cyfartalog gyrfa ar gyfer pob blwyddyn o gyfanswm aelodaeth. Pan fyddwch yn codi eich budd daliadau byddwch yn gallu newid peth o'ch pensiwn i dderbyn lwmp swm rhydd o dreth mwy.

### Enghraifft o gyfrifiad pensiwn a lwmp swm

Ar oedran ymddeol yn 65 mae gan aelod o'r Cynllun gyfanswm o 10 mlynedd â 204 diwurnod o aelodaeth a chyflog cyfartalog gyrfa o £16,200.

**Y pensiwn blynyddol felly yw:**

1/80 x £16,200 x 10 mlynedd 204/365 diwurnod = **£2,138.18**

**Y lwmp swm rhydd o dreth a delir yn awtomatig felly yw:**

3/80 x £16,200 x 10 mlynedd 204/365 diwurnod = **£6,414.53**

### Cyflog cyfartalog gyrfa

Cyflog cyfartalog gyrfa yw'r cyflog, ar gyfer pob blwyddyn lawn neu ran o flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, wedi'i gymhwyso (ond nid ar gyfer y flwyddyn olaf o gyflog) gan y gwahaniaeth rhwng y mynegai costau byw priodol rhwng y flwyddyn berthnasol a diwrnod olaf yn y mis lle mae eich aelodaeth weithredol yn y cynllun yn diweddu. Yna, mae cyfanswm pob blwyddyn o gyflog wedi ei ailbrisio yn cael ei rannu gyda'r cyfanswm o flynyddoedd neu ran o flynyddoedd i gyrraedd y cyflog cyfartalog gyrfa. Dyna'r ffigwr a ddefnyddir i gyfrifo eich buddion pensiwn.

### A fydd fy mhensiwn yn cael ei ailbrisio?

Ar ôl 55 mlwydd oed bydd taliad pensiwn aelodau yn cael ei ailbrisio bob blwyddyn yn unol â mynegai costau byw priodol. Os ydych yn ymddeol cyn 55 mlwydd oed ychwanegir effaith cronedig chwyddiant ers i chi ymddeol i'ch pensiwn pan fyddwch yn cyrraedd 55 mlwydd oed. Fe ailbrisiwyd pensiynau gwaeledd iechyd yn flynyddol yn unol â mynegai costau byw priodol waeth beth fo'r oedran.

# The Benefits

### How much will my pension be?

Your pension is based on your total membership and your career average pay. The example below shows how your pension is calculated by dividing your career average pay into 80ths and multiplying this figure by your total membership to give you your annual pension.

### How much will my lump sum be?

The lump sum automatically paid on retirement is three times your annual pension and is tax-free. Like your pension, it is based on your career average pay and your total membership. The calculation for the lump sum is 3/80ths of your career average pay for every year of total membership. When you draw your benefits you will be able to exchange some of your pension to receive a bigger tax-free lump sum.

### Example pension and lump sum calculation

On retirement at age 65, a Scheme member has 10 years & 204 days total membership and has a career average pay of £16,200.

**The annual pension is therefore:**

1/80 x £16,200 x 10 years 204/365 days = **£2,138.18**

**The tax-free lump sum automatically paid is therefore:**

3/80 x £16,200 x 10 years 204/365 days = **£6,414.53**

### Career average pay

Career average pay is the pay for each year or part year ending 31 March adjusted (other than the final years pay) by the change in the appropriate cost of living index between the end of the relevant year and the last day of the month in which your active membership of the Scheme ends. The aggregate of each years re-valued pay is then divided by the total number of years and part years to arrive at the career average pay. This is the figure used to calculate your pension benefits.

### Will my pension be revalued?

After age 55, members' pensions in payment will be revalued each year in line with the appropriate cost of living index. If you retire before age 55, the accumulated effect of inflation since you retired will be added to your pension when you reach age 55. Ill health pensions are revalued each year with the appropriate cost of living index regardless of age.

## Alla i roi i fyny peth o'm pensiwn er mwyn cynyddu fy lwmp swm?

Gallwch newid peth o'ch pensiwn ar gyfer mwy o lwmp swm rhydd o dreth. Gallwch gymryd hyd at uchafswm o 25% o werth cyfalaf o'ch budd daliadau pensiwn fel lwmp swm rhydd o dreth[1].

Byddai unrhyw swm y byddech yn ei gymryd fel lwmp swm yn ychwanegol i'r lwmp swm awtomatig yn cael ei gyflawni trwy gyfnewid rhan o'ch pensiwn blynyddol am un taliad arian parod rhydd o dreth – am bob £1 o bensiwn blynyddol y byddwch yn ei roi i fyny byddwch yn derbyn lwmp swm o £12.

Rhaid i opsiwn i gymryd lwmp swm ychwanegol gael ei wneud yn ysgrifenedig cyn y bydd eich buddion yn cael eu talu. Fel bod gennych ddigon o amser i wneud eich penderfyniad a chael cyngor ariannol os ydych yn dymuno, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r Adran Bensiynau ymhell cyn eich dyddiad ymddeol bwriedir fel y gallant roi mwy o fanylion i chi.

Bydd eich pensiwn yn cael ei leihau yn unol ag unrhyw etholiad a wnewch i dderbyn lwmp swm ychwanegol. Ni fydd pensiwn tymor hir eich priod, partner sifil neu blant yn cael eu heffeithio os byddwch yn penderfynu cyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm ychwanegol.

## Cymryd eich cronfa CGY fel arian

Os ydych yn talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) trwy'r CPLlL, gallwch ddewis cymryd hyd at 100% o'r gronfa gronedig yn eich cyfrif CGY fel lwmp swm rhydd o dreth os ydych yn ei gymryd ar yr un adeg â'ch buddion pensiwn CPLlL, ar yr amod nad yw, wedi iddo ei ychwanegu i'ch lwmp swm CPLlL yn fwy na 25% o werth cyfan gwbl eich buddion CPLlL (yn cynnwys eich cronfa CGY). **Am ragor o wybodaeth ynghylch eich opsiynau, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

## Sut fydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?

Bydd taliadau pensiwn misol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Gall trefniadau tebyg hefyd cael eu gwneud i dalu eich pensiwn i mewn i'ch cyfrif os ydych yn symud dramor. Bydd gwybodaeth bellach ynghylch a thalu eich pensiwn yn cael ei ddarparu wrth i chi ymddeol.

## Beth os byddaf yn dod yn ail-gyflogedig?

Os, ar ôl ymddeol, rydych yn dychwelyd i'r gwaith neu swyddfa o fewn Llywodraeth Leol neu gyflogaeth gyda sefydliad arall sy'n cymryd rhan yn y CPLlL, efallai y bydd eich pensiwn yn cael ei leihau neu ei atal yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan eich awdurdod gweinyddu. O dan y CPLlL, mae hwn yn ddisgresiwn awdurdod gweinyddol ac mae'n rhaid iddynt gyhoeddi polisi ar hyn. Bydd rhagor o fanylion yn cael ei darparu ar gais.

[1] Ar yr amod nad yw'r lwmp swm cyfan yn fwy na £250,000 (ffigwr o Ebrill 2016) llai gwerth unrhyw hawliau pensiwn arall sydd gennych.

## Can I give up some of my pension to increase my lump sum?

You will be able to exchange some of your pension for a bigger tax-free lump sum. You will be able to take up to a maximum of 25% of the capital value of your pension benefits as a tax-free lump sum[1].

Any amount you take as a lump sum above the automatic lump sum would be achieved by exchanging part of your annual pension for a one-off tax-free cash payment – for each £1 annual pension given up you will receive £12 lump sum.

An option to take extra lump sum has to be made in writing before your benefits are paid. So that you have plenty of time to make up your mind and seek financial advice if you wish, it is important you contact the Pension Section well in advance of your intended retirement date so they can provide you with more details.

Your pension will be reduced in accordance with any election you make to receive extra lump sum. Any subsequent spouse's, civil partner's and children's long term pensions will not be affected if you decide to exchange part of your pension for extra lump sum.

## Taking your AVC fund as cash

If you pay additional voluntary contributions (AVCs) via the LGPS you may elect to take up to 100% of the accumulated fund in your AVC account as a tax free lump sum if you draw it at the same time as your LGPS pension benefits, provided when added to the LGPS lump sum it does not exceed 25% of the overall value of your LGPS benefits (including your AVC fund). **For further information regarding your options, please contact the Pension Section.**

## How will my pension be paid?

Monthly pension payments will be made direct into your bank or building society account. Similar arrangements can also be made to pay your pension into your account should you move abroad. Further information regarding payment of pensions is provided on your retirement.

## What if I become re-employed?

If, after retiring, you return to employment or office within Local Government or employment with another organisation that participates in the LGPS, your pension may be reduced or suspended in accordance with the policy adopted by your administering authority. Under the LGPS, this is an administering authority discretion and their policy must have been published. Further details will be provided on request.

[1] Providing the lump sum does not exceed £250,000 (figure from April 2016) less the value of any pension rights you have in payment.

## Diogelwch i'ch Teulu

### Pa fudd daliadau a delir pe byddwn yn marw yn ystod tymor gwasanaethu?

Os ydych yn marw yn ystod tymor gwasanaeth tra'n aelod o CPLIL, yn amodol ar yr amodau cymwys a eglurir, mae'r budd daliadau a ddangosir isod yn daladwy.

- Mae lwmp swm grant marwolaeth dwywaith swm eich cyflog cyfartalog gyrfa yn daladwy waeth beth fo hyd yr amser yr ydych wedi bod yn aelod o CPLIL, cyn belled eich bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth.
- Telir pensiwn tymor byr i'ch priod neu bartner sifil am dri mis yn uniongyrchol yn dilyn eich marwolaeth (neu chwe mis os oes plenty / plant cymwys yng ngofal eich priod neu bartner sifil) ar raddfa flynyddol gyfartal i'ch cyflog cyfartalog gyrfa. Os ydych yn marw tra mewn gwasanaeth ac wedi adeiladu tri mis o gyfanswm aelodaeth yna fe fydd y CPLIL yn talu pensiwn tymor hir i'ch priod neu bartner sifil yn ogystal pan fydd y pensiwn tymor byr yn dod i ben. Fel arfer mae'r pensiwn tymor hir yn hanner y pensiwn y byddech wedi ei dderbyn pe buasech wedi ymddeol yn gynnar oherwydd gwaeledd ar ddyddiad marwolaeth.
- Pensiynau ar gyfer plant cymwys. **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.**

### Pa fudd daliadau fydd yn cael eu talu os wyf yn marw wedi i mi ymddeol ar bensiwn?

Os ydych yn marw ar ôl ymddeol ar bensiwn, yna gall y budd daliadau â ddangosir isod canlynol fod yn daladwy. Bydd rhaid i'ch priod, partner sifil, perthynas agosaf neu'r person sy'n delio â'ch Ystâd roi gwybod i'r Adran Bensiynau o'ch dyddiad marwolaeth mor fuan â phosib neu gallai gordaliad ddigwydd.

- Bydd lwmp swm grant marwolaeth yn daladwy os yw marwolaeth yn digwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf ar bensiwn ac eich bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth. Bydd y swm sy'n daladwy pum gwaith swm eich pensiwn blynyddol wedi'i leihau gan y pensiwn sydd eisoes wedi ei dalu i chi hyd at ddyddiad marwolaeth.
- Bydd pensiwn tymor byr yn daladwy i'ch priod neu bartner sifil am dri mis yn dilyn eich marwolaeth, (neu chwe mis os yw un neu ragor o blant cymwys yng ngofal eich priod neu bartner sifil). Bydd hyn yn gyfartal i'r pensiwn yr oeddech yn ei dderbyn neu a fyddech wedi ei dderbyn oni bai am y lleihad fel canlyniad i ymddeoliad cynnar neu fel canlyniad i gyfnewid pensiwn am gynnydd mewn lwmp swm oherwydd gwaeledd iechyd eithriadol.

## Protection for your Family

### What benefits will be paid if I die in service?

